1907-2007
Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

6 Medi 2007

Cyfle i drafod materion addysg yn Sir Fynwy

Bydd digwyddiad yn Sir Fynwy yn rhoi cipolwg ar yr heriau sy'n wynebu addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant dros Gymru, yn cynnal cyfarfod yng Ngwesty Cwrt Bleddyn, ger Brynbuga, nos Lun 24 Medi.

Mae Estyn yn gwahodd rhieni, athrawon, llywodraethwyr a phobl eraill sydd â diddordeb mewn addysg i wneud cais am docynnau am ddim i fynychu. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 6.30pm, gyda lluniaeth ar gael o 6.00pm.

Bydd Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn amlinellu'r modd y mae'r gwasanaeth arolygu yn gweithio a sut y gall helpu i wella safonau addysg a hyfforddiant. Bydd hi hefyd yn sôn am rai o'r heriau sy'n wynebu ysgolion yng Nghymru ac yn rhannu gwybodaeth am safonau addysg yn Sir Fynwy.

Bydd panel Estyn, ynghyd â chynrychiolwyr o Gyngor Sir Fynwy, wedyn yn ymateb i gwestiynau ar faterion addysg a hyfforddiant.

Dywed Susan Lewis: "Mae'r cyfarfod yn gyfle i ganfod sut y gall arolygu wneud gwahaniaeth. Mae gan Estyn rôl bwysig wrth sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar addysg a hyfforddiant, ac mae gan ein gwaith arolygu rôl allweddol wrth wella safonau ac ansawdd ledled Cymru."

Dylai'r rheiny a fyddai'n hoffi cymryd rhan wneud cais am docynnau i Estyn – gan roi eu henw, eu cyfeiriad ac enw eu hysgol – trwy ffonio 029 2044 6464 (oriau swyddfa) neu anfon e-bost i cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk.

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned, awdurdodau addysg lleol (AALlau), addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau gyrfaoedd, dysgu troseddwyr ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddiant a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464